# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 6ED GORFFENNAF, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 28 Mehefin 2021)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes (Cadeirydd)

W. Roy Owen

Edgar Wyn Owen

Angela Russell (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Gareth Thomas

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 7

Y Griffin, Griffin Terrace, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LW.

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **6 Gorffennaf 2021** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Y GRIFFIN** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer The Griffin, Griffin Terrace, Gwynedd, LL48 6LW. Mae'r ymgeisydd The Griffin Hotel LTD, yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer tafarndy teuluol a gwesty.

1.2 Gwneir y cais mewn perthynas a gwerthu alcohol, cerddoriaeth byw ac wedi recordio, ar ac oddi ar yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Derbyniwyd gwrthwynebiad gan Adran Gwarchod y Cyhoedd ac amodau arfaethedig gan Heddlu Gogledd Cymru.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

**Oriau Agor / Opening Hours:**
Penwythnos Gwyl Banc : Bank Holiday Weekends 01:00 Dan do - Indoors
Nos Galan : New Years 02:00 Dan Do – Indoors

| | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 00:30 |
| Dydd Gwener/Friday | 08:00 - 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 - 01:00 |

**Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:**

**Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**
Penwythnos Gwyl Banc : Bank Holiday Weekends 00:30 Dan do - Indoors
Nos Galan : New Years 01:00 Dan Do - Indoors

| | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 11:00 - 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 11:00 - 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 11:00 - 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 11:00 - 00:00 |

**Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**
Penwythnos Gwyl Banc : Bank Holiday Weekends 00:30 Dan do - Indoors
Nos Galan : New Years 01:00 Dan Do - Indoors

Dydd Sul/Sunday 11:00 - 23:00
Dydd Llun/Monday 11:00 - 23:00
Dydd Mawrth/Tuesday 11:00 - 23:00
Dydd Mercher/Wednesday 11:00 - 23:00
Dydd Iau/Thursday 11:00 - 00:00
Dydd Gwener/Friday 11:00 - 00:00
Dydd Sadwrn/Saturday 11:00 - 00:00

**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**
Penwythnos Gwyl Banc : Bank Holiday Weekends 00:30 Dan do - Indoors
Nos Galan : New Years 01:30 Dan Do – Indoors
Bar allanol ar gau : External Bar closes – 22:30

| | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 23:30 |
| Dydd Llun/Monday | 11:00 - 23:30 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 11:00 - 23:30 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 11:00 - 23:30 |
| Dydd Iau/Thursday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 11:00 - 00:30 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 11:00 - 00:30 |

## 2. <u>Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu</u>

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Gweithredir system Teledu Cylch Cyfyng i fonitro y tu mewn ac allan, a sicrhau golau ac arwyddion digonol
- Hyfforddi staff
- Gweithredu polisi gwirio oedran
- Goruchwyliwr drysau *SIA* i'w cyflogi pan fo rygbi neu achlysur
- Ymaelodi i gynllun gwarchod tafarndai
- Mesuriadau i atal yfed a gyrru
- Cynhelir asesiadau risg manwl

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## 3. <u>YMGYNGHORIAD</u>

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Adran Gwarchod y Cyhoedd | E-bost – sylwadau ac gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | E-bost – Sylwadau ac amodau |

**3.2 Adran Gwarchod y Cyhoedd**

Amlygwyd pryderon yn sgil atal niwsans cyhoeddus yn deillio o adloniant yn cael ei gynnal tu allan yn hwyr; oherwydd fod yr eiddo wedi leoli yn agos i dai preswyl. Ni dderbyniwyd gwybodaeth pellach gan yr ymgeisydd o ran eu bwriad sut y byddent yn atal niwsans cyhoeddus megis sŵn, felly penderfynwyd gwrthwynebu'r cais.

**3.3 Heddlu Gogledd Cymru**

Cytunodd yr ymgeisydd i gyfaddawdu i amodau Teledu Cylch Cyfyng, hyrwyddo'r fenter herio 25 ac i gynnal asesiad risg pam fo angen goruchwylwyr drysau neu ar adegau eraill a gytunir gyda Heddlu Gogledd Cymru.

4. **Diweddariad yn dilyn gohebiaeth gan yr ymgeisydd 23/6/21**

Mewn ymateb i e-byst gan Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn datgan gwrthwynebiad oherwydd pryderon sŵn; fe dderbyniwyd gohebiaeth gan yr ymgeisydd yn cadarnhau fod bwriad ganddynt i adeiladu darpariaeth ar gyfer adloniant byw tu allan. Ond, cadarnhawyd nad oedd y gwaith perthnasol wedi cymryd lle eto.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl ; mynegodd yr ymgeisydd ei dymuniad i dynnu yn ôl ei chais i gynnal adloniant tu allan yr eiddo hyd nes yr oedd mewn sefyllfa i roi mesurau priodol mewn lle. Fe fyddai wedyn yn cyflwyno cais newydd i gynnal adloniant tu allan yn y dyfodol; unwaith fydd gwaith wedi ei gwblhau ar yr eiddo i'w addasu ar gyfer y bwriad. Cadarnhaodd y swyddog gwarchod y cyhoedd y byddai modd tynnu gwrthwynebiad i'r cais yn ôl; yn ddarostyngedig i gadarnhau wrth y Pwyllgor nad oes bwriad cynnal adloniant tu allan ar hyn o bryd; ac felly na fydd adloniant tu allan yn cael ei gynnwys ar y drwydded os fydd yn cael ei chaniatáu; am y tro.

**4 ARGYMHELLIAD**

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn caniatáu'r cais os yw yr ymgeisydd yn cadarnhau diddymu y bwriad i gynnal adloniant tu allan oddi ar y cais; ac yn unol ag argymhellion yr Heddlu, Gwarchod y Cyhoedd ; â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.